# WILDE, WILLIAM JAMES (JIMMY) (1892 - 1969), paffiwr, pencampwr pwysau pry'r byd (1916-23)

**Enw:** William James Wilde
**Dyddiad geni:** 1892
**Dyddiad marw:** 1969
**Priod:** Elizabeth Wilde (née Davies)
**Rhiant:** Margaret Ann Wilde (née Evans)
**Rhiant:** James Wilde
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** paffiwr, pencampwr pwysau pry'r byd (1916-23)
**Maes gweithgaredd:** Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
**Awdur:** William Morgan Rogers

Ganwyd 12 Mai 1892 yn 8, Station Road, Pont-y-gwaith, Tylorstown, Rhondda, yn fab i James a Margaret Wilde. Yn ifanc iawn amlygai gryn wydnwch wrth ei amddiffyn ei hun mewn ymrysonau pen-stryd, a phan aeth i'r pwll glo lleol cydweithiai â Dai Davies, hen ymladdwr bol mynydd, a ddysgodd lawer iddo am focsio a'i wahodd i'w gartref i ymarfer ar y llofft. Pan chwalodd y teulu, cafodd lety yn nh Dai Davies, ac yn ddiweddarach priododd Lisbeth, merch y llety. Crwtyn eiddil ac ysgafn ydoedd, ond hynny neu beidio, ennill ei fywoliaeth wrth focsio oedd ei uchelgais. Yn bymtheg oed, cafodd ddamwain yn y gwaith, a bu ar ei gefn am flwyddyn a rhagor yn disgwyl i'w goes wella. Gan Jack Scarrott, perchennog y bwth bocsio, y cafodd ei gyfle cyntaf er i hwnnw hefyd fynegi amheuaeth yngl n â dyfodol pwtyn 5′ 2½″ na phwysai gymaint â 6 stôn y pryd hwnnw. Ar hyd ei yrfa anhygoel o 864 o ornestau (y ffigur a ddyfynnir amlaf), 7 stôn 10 pwys fu ei bwysau trymaf. Yn 1913, gadawodd y pwll i ganolbwyntio ar yrfa yn y sgwâr proffesiynol ar ôl perswadio Ted Lewis i weithredu fel ei reolwr. Yn Nhachwedd 1914, enillodd bencampwriaeth pwysau pry Prydain drwy guro Joe Symmonds. Yn Ionawr 1915 collodd ei deitl i Tancy Lee yn y 17eg rownd. Honno oedd yr ornest gyntaf a gollodd, ond ymhen blwyddyn, yr oedd wedi curo Joe Symmonds i gipio'r teitl drachefn, ac yn Ionawr 1916, talodd y pwyth yn ôl i Tancy Lee yn y 11eg rownd. Yr oedd y grym a gariai un mor ysgafn yn ei ddau ddwrn yn rhyfeddu'r arbenigwyr. Bocsio da yn hytrach nag unrhyw rym cyfrin, ynghyd ag amseru perffaith a digonedd o hunan-hyder, oedd esboniad arferol Wilde. Ddiwedd 1916, ac yntau erbyn hynny'n swyddog ymarfer corff yn y fyddin, trechodd Young Zulu Kid o T.U.A. yn yr 11eg rownd i ennill pencampwriaeth pwysau pry'r byd. Yr oedd y ' Mighty Atom ', y ' Tylorstown Terror ', yr ' Indian Famine ' a'r ' Ghost with a hammer ' wedi cyrraedd y brig. A'r rhyfel trosodd, trefnwyd gornestau tair rownd rhwng milwyr Prydain ac America. Yr ail noson, curwyd ef gan Pal Moore. Ar sail y dadlau a gafwyd wedi hynny, trefnwyd ail gyfarfod pan enillodd dros yr 20 rownd. Yn 1920, aeth ar daith focsio i T.U.A. a threchu pob un o'i wrthwynebwyr heb fawr o drafferth. Yn Ionawr 1921, fe'i trechwyd yn y 17eg rownd gan Pete Herman o T.U.A. Y gobaith oedd y byddai'n ymddeol mewn pryd ond, am £15,000, penderfynodd fynd i Efrog Newydd i amddiffyn ei deitl yn erbyn Pancho Villa ym Mehefin 1923. Ni fuasai ar gyfyl y sgwâr ers hydoedd, ac fe'i trechwyd gan Villa yn y seithfed rownd. Ar ôl ymddeol, bu o bryd i'w gilydd yn gysylltiedig â sawl menter aflwyddiannus. Ysgrifennodd ei hunangofiant *Boxing was my business* yn 1938, a bu am gyfnod yn ohebydd bocsio 'r *News of the World*. Bu'n glaf am y pedair blynedd olaf o'i oes, pan gollodd ei wraig, ac yn ysbyty'r Eglwys Newydd, Caerdydd, yn 76 mlwydd oed, bu farw ar 11 Mawrth 1969.

## Awdur

**William Morgan Rogers**, (1934 - 1999)

## Ffynonellau

Ymchwil bersonol

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jimmy Wilde

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 93795786

Wikidata: Q1380989

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu